citizens advice scotland

cyngor ar bopeth

citizens advice bureau

Cael gafael ar arian – peidiwch â bancio arni



Cynnwys

4 Crynodeb

Y Cefndir
Prif ganfyddiadau'r arolwg
Argymhellion

6 Cyflwyniad

8 Y galw am arian – cefndir yr adroddiad hwn

Methodoleg yr ymchwil a'r ymateb

11 Canlyniadau'r arolwg

Canlyniadau cyffredinol
Rhwystrau rhag cael gafael ar arian parod

23 Goblygiadau i'r dyfodol

25 Nodiadau technegol

26 Atodiad A: Holiadur Cael gafael ar arian CAB

31 Atodiad B: Cwestiynau Ipsos MORI



Crynodeb

Y Cefndir

Er gwaethaf y ffaith ein bod nawr yn gallu defnyddio dulliau talu newydd arloesol fel cardiau di-gyffwrdd ac e-daliadau, mae cael gafael ar arian parod yn dal yn bwysig i bobl, yn enwedig cael gafael ar arian drwy'r rhwydwaith o beiriannau codi arian. Er mwyn ymchwilio i'r mater, roedd Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yn yr Alban wedi lansio prosiect ymchwil a oedd yn edrych ar sut a ble mae pobl yn cael gafael ar eu harian parod, yn ogystal â pha gyfyngiadau sy'n bodoli.

Roeddem wedi cynnal ein harolwg ein hunain o gleientiaid CAB ac wedi comisiynu Ipsos MORI i gynnal arolwg pellach o sampl cynrychioladol. Roedd yr ymateb i arolwg CAB yn dangos bod llawer iawn o ddiddordeb yn y pwnc hwn, gyda bron i 8,000 o bobl yn ymateb.

Prif ganfyddiadau'r arolwg

Y peiriant arian parod yw'r ffordd fwyaf boblogaidd o gael gafael ar arian parod o bell ffordd. Roedd naw deg y cant o'r rheini a atebodd arolwg CAB a 84 y cant o'r rheini a atebodd arolwg Ipsos MORI ac sy'n codi arian yn dweud eu bod fel rheol yn cael gafael ar arian parod drwy ddefnyddio'r dull hwn.

Ar yr olwg gyntaf, mae darlun cadarnhaol yn dod i'r amlwg o arolwg CAB ynghylch pa mor hawdd yw cael gafael ar arian am ddim, gyda dim ond chwech y cant yn dweud bod hyn yn anodd iddynt. Serch hynny, roedd y ffigur hwn dair gwaith yn uwch i'r rheini a oedd â chyfrif banc sylfaenol gyda banc nad yw'n caniatáu mynediad i'r rhwydwaith LINK ar gyfer y cyfrifon hynny (12 y cant), nag i'r rheini sydd â chyfrif cyfredol safonol (pedwar y cant).

Mae pobl yn manteisio'n helaeth ar yr hyblygrwydd sydd ar gael drwy'r rhwydwaith LINK. Roedd chwe deg dau y cant o'r bobl a atebodd arolwg CAB yn defnyddio peiriannau codi arian sy'n berchen i'w banc neu eu cymdeithas adeiladu eu hunain yn aml, ond dywedodd yr un ganran eu bod hefyd yn defnyddio peiriannau sy'n berchen i fanciau neu gwmnïau eraill yn aml. Ar y sail honno, byddai unrhyw erydiad pellach i'r gallu i ddefnyddio rhwydwaith LINK yn ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar arian.

Down i'r casgliad hwnnw oherwydd bod 63 y cant o'r rheini a atebodd arolwg CAB wedi dweud y byddai'n anoddach iddynt gael gafael arian petai eu banc neu eu cymdeithas adeiladu yn penderfynu mai dim ond o'i beiriannau ei hun y byddai pobl yn gallu cael gafael ar arian. Dywedodd tri deg saith y cant o'r rheini a atebodd arolwg CAB y byddai'n anoddach o lawer.

Mae'r ymatebion i'r arolwg hefyd yn dangos yn glir nad yw pobl yn hoffi talu er mwyn cael gafael ar eu harian. Dim ond tri y cant o'r defnyddwyr peiriannau codi arian a atebodd arolwg CAB ac un y cant o'r rheini a atebodd arolwg Ipsos MORI sy'n defnyddio peiriannau codi arian sy'n codi ffi fel rheol.

Argymhellion

Mae'r ymatebion i'n harolwg yn dangos bod cael gafael ar arian yn gadarnhaol ond yn ansicr i gwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol. Mae penderfyniadau RBS Group a Lloyds TSB a'r Bank of Scotland (ill dau yn rhan o'r Lloyds Banking Group) i gyfyngu mynediad i'r rhwydwaith LINK wedi cael effaith. Os bydd eraill yn dilyn yr un trywydd bydd hynny'n achosi anawsterau pellach. Dylid cael tegwch ar gyfer cyfrifon banc sylfaenol a mynediad am ddim i'r cwsmer at ei arian drwy'r rhwydwaith ATM LINK.

Wrth feddwl am yr anawsterau parhaus mae nifer o ddefnyddwyr yn eu hwynebu wrth gael gafael ar gynnyrch bancio sylfaenol o gwbl, a'r amrywiadau cynyddol mewn cyfleusterau a swyddogaethau, dylai'r DU weithredu Argymhelliad yr UE o ran mynediad at fancio sylfaenol, a fyddai'n golygu bod pob defnyddiwr yn gallu cael gafael ar gyfrif o'r fath, ni waeth beth oedd ei hanes neu ei sefyllfa ariannol.

Mae nifer o gwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol yn dibynnu ar allu defnyddio cangen, rhywbeth sydd wedi'i gyfyngu mewn nifer o ffyrdd gan rai darparwyr cyfrifon banc sylfaenol. Dylai'r un gwasanaethau cownter fod ar gael i bob cwsmer, a dylid gallu cael gafael ar bob cyfrif banc sylfaenol drwy rwydwaith Swyddfa'r Post.

Cyflwyniad

"Dwi'n disgwyl gallu cael gafael ar arian parod pryd bynnag a ble bynnag dwi'n ei ddymuno. Byddwn i'n defnyddio peiriant mae'n rhaid talu i'w ddefnyddio os yw hynny'n golygu does dim rhaid i mi deithio'n bell i godi arian."

"Pwy sy'n defnyddio arian parod y dyddie hyn?...dim ond i dalu coste teithio i fi'n cadw unrhyw arian."

"Dwi'n casáu gorfod talu am bres – dim ond mewn argyfwng dwi'n gwneud hynny. Pam fyddwn i eisiau talu i gael fy mhres fy hun?"

"Rwyf wedi cael fy synnu ei bod yn rhaid i unrhyw un dalu i godi arian... Efallai ei bod yn anoddach mewn gwasanaethau ar draffyrdd neu mewn canolfannau adloniant ond ar hyd a lled y lle fel rheol, mae'n ymddangos bod digon o beiriannau ar gael."

Cael gafael ar ein harian – mae'n bwysig i bob un ohonom ni. Efallai fod gennym ni safbwyntiau gwahanol ar y pwnc, fel y gwelir drwy'r sylwadau hyn gan ymatebwyr i arolwg diweddar gan CAB, ond mae'n rhywbeth sy'n bwysig i ni gyd. Mae angen arian parod weithiau ar hyd yn oed y rheini ohonom ni sy'n defnyddio dulliau talu eraill, ac mae nifer o bobl, yn enwedig y rheini ar incwm is, yn dibynnu arno i reoli eu materion ariannol. Mae'n hawdd i'r rhan fwyaf ohonom ni gael gafael ar ein harian drwy beiriannau codi arian, ond mae rhai ohonom ni'n wynebu anawsterau, boed hynny oherwydd daearyddiaeth, anabledd neu gyfyngiadau ar ein cyfrif. Mae ychydig ohonom ni'n fodlon talu am hwylustod cael peiriant codi arian yn agos, ond nid yw'r rhan fwyaf ohonom ni, gan gredu ei bod yn amhriodol gorfod talu ffi am godi ein harian ein hunain. Ac mae hi'n well gan rai ohonom ni ddefnyddio dulliau eraill i godi arian, fel gwasanaeth dros y cownter neu 'arian yn ôl' mewn archfarchnad yn lle'r peiriant twll yn y wal neu yn ychwanegol ato.

Gyda help bron i 8,000 o bobl a atebodd ein harolwg, a dros 1,000 o roddodd sylwadau ychwanegol am eu profiadau, mae'r adroddiad hwn yn edrych sut rydym yn cael gafael ar ein harian a'r rhwystrau sy'n wynebu rhai ohonom ni.

"Mae angen i mi gadw llygad barcud ar fy arian ac mae gallu defnyddio peiriant codi arian dibynadwy'n rheolaidd yn fy helpu i gadw rheolaeth ar fy materion ariannol."

"Rwyf fi newydd ddod nôl o Awstralia, a dim ond ym mheiriannau twll yn y wal eich banc eich hun gewch chi godi arian am ddim yn fan honno. Mae'n anhwylus iawn ac rwy'n gobeithio na fydd y Deyrnas Unedig yn mynd nôl i'r system honno."

"Roedd gen i gerdyn o'r blaen a dim ond ym mheiriannau fy manc fy hun roeddwn i'n cael ei ddefnyddio. Roeddwn i'n byw 20 munud i ffwrdd (ar y bws) ac roedd yn hunllef. Doedd hi ddim yn hawdd i mi gael gafael ar arian ac roedd hi'n costio £3 i mi brynu tocyn bws i gyrraedd y peiriant."

"Fydda i ddim yn defnyddio peiriant codi arian. Dwi'n byw drws nesaf i swyddfa bost a byddaf yn ei chefnogi drwy godi arian o fan honno."

Does dim modd bwrw ymlaen â'r cais hwn. Cysylltwch â'ch banc.

Y galw am arian
– cefndir yr adroddiad hwn

Wrth feddwl am daliadau di-gyffwrdd, siopa ar-lein, bancio ar-lein, taliadau symudol a throsglwyddo arian yn awtomatig yn gynt a thechnoleg sy'n datblygu'n gyson, byddai'n hawdd credu nad oes angen arian parod mwyach. Mae'r arwyddion yn dangos y byddwn yn defnyddio llai o arian parod mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor Taliadau, er enghraifft, yn rhagweld y bydd faint o arian parod a godir o gyfrifon yn lleihau mewn termau real erbyn 2018[1]. Hyd yn oed petai hyn yn digwydd byddai codi arian yn dal yn fwy na £4,400 y pen y flwyddyn. A hyd yn oed os edrychwn ar weithgarwch peiriannau codi arian ar gyfer 2011, nid oes dim arwydd ein bod fel cymdeithas yn troi ein cefnau ar y dull hwn o gael gafael ar ein harian. Cafodd mwy o arian ei godi yn 2011 nag erioed o'r blaen. Roeddem wedi defnyddio peiriannau arian 2.87 biliwn gwaith y flwyddyn, gan godi £191 biliwn.[2]

O ran pa mor hwylus gallwn ni gael gafael ar ein harian, mae'r darlun yn edrych yn dda iawn ar hyn o bryd. Ar ddiwedd 2011, roedd dros 65,000 o beiriannau arian yn y DU, ac roedd modd defnyddio dwy ran o dair ohonyn nhw am ddim. Roedd hyn bron i 2,000 o beiriannau yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, ac roedd nifer y peiriannau roedd yn rhaid talu i'w defnyddio wedi disgyn er 2010. Er gwaethaf y ffaith ei bod yn rhaid talu i ddefnyddio traean o'r peiriannau codi arian yn 2011, doedd dim rhaid talu am bron i 97 y cant o'r adegau pan godwyd arian o beiriannau'r DU[3], sy'n dangos ein bod fel cymdeithas yn amharod i dalu i gael gafael ar ein harian ein hunain. Mae'r rhwydwaith LINK yn rhoi'r rhyddid i'r rhan fwyaf ohonom godi ein harian ar adeg ac mewn lleoliad o'n dewis, ni waeth gyda pha fanc neu gymdeithas adeiladu mae ein cyfrif. O'r £191 biliwn a godwyd yn 2011, dim ond £72 biliwn - 38 y cant - a godwyd o beiriant a oedd yn berchen i fanc neu gymdeithas adeiladu'r unigolyn. Mae'n ymddangos ein bod yn manteisio'n llawn ar hyblygrwydd a hwylustod y rhwydwaith cenedlaethol hwn.

A dweud y gwir, i'r rhan fwyaf ohonom ni, efallai ei fod yn rhywbeth rydym yn ei gymryd yn ganiataol – ble bynnag byddwn yn mynd bydd hi'n hawdd i ni gael gafael ar arian os bydd angen. Nid oes angen i ni chwilio am beiriant sy'n berchen i fanc neu gymdeithas adeiladu benodol, ond gallwn ddefnyddio ein cerdyn yn y peiriant agosaf a welwn, gan wybod y bydd yn gweithio'n iawn ni waeth pwy sy'n berchen ar y peiriant. Er bod modd i ni ddewis bod hwylustod peiriant mae'n rhaid talu i'w ddefnyddio yn werth y ffi, mae'r cynnydd yn y nifer o beiriannau mae modd eu defnyddio am ddim yn golygu nad oes byth rhaid i'r rhan fwyaf ohonom ni fynd yn bell i gael gafael ar ein harian am ddim. Ond nid yw'r rhyddid hwn o ran dewis a mynediad yn rhywbeth rydym bob tro wedi'i fwynhau, ac nid yw'n rhywbeth gallwn ni fod yn hunanfodlon yn ei gylch.

Nid oes yn rhaid i ni fynd yn ôl yn bell iawn mewn amser i ddod o hyd i sefyllfa waeth o lawer na'r un sydd gennym nawr. Mor ddiweddar â 2000, roedd defnyddio peiriant codi arian ar gyfer banc neu gymdeithas adeiladu nad oedd yn fanc neu'n gymdeithas adeiladu i chi yn debyg o gostio arian i chi. Yn 2001, roedd nifer y peiriannau codi arian yn y DU ddim yn bell o hanner y nifer sydd gennym heddiw. Ac ar ddechrau'r 2000au gwelsom

1 Y Cyngor Taliadau, The Way We Pay 2010 – The UK's Payment Revolution
2 Datganiad i'r wasg gan y Cyngor Taliadau, 19 Mawrth 2012
3 Gwefan LINK

gynnydd dramatig yng nghyfran y peiriannau codi arian roedd yn rhaid talu i'w defnyddio, gan gyrraedd ei lefel uchaf yn 2006 sef 43 y cant.

Tynnodd Cyngor ar Bopeth sylw at effaith y twf mewn peiriannau mae'n rhaid talu i'w defnyddio, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd difreintiedig, lle nad oedd llawer o beiriannau mae modd eu defnyddio am ddim, os o gwbl, gan bwyso ar Lywodraeth y DU i weithredu[4]. Cynhaliwyd uwchgynhadledd peiriannau codi arian ym mis Mai 2006 a sefydlwyd tasglu peiriannau codi arian o dan gadeiryddiaeth John McFall AS. O ganlyniad i waith ac argymhellion y tasglu, cytunodd y banciau i gynyddu'n sylweddol faint o beiriannau arian roedd modd eu defnyddio am ddim mewn ardaloedd incwm is. Roedd yr ymgyrch i gynyddu nifer y peiriannau arian mae modd eu defnyddio am ddim yn llwyddiant ysgubol ym marn Cyngor ar Bopeth ac eraill a oedd wedi ymgyrchu dros hynny yn 2008. Siaradodd cadeirydd y tasglu, John McFall AS, am y llwyddiant hefyd, gan ddweud, "Mae'n bwysig bod pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau ariannol sylfaenol, ac mae hyn yn cynnwys peiriannau codi arian...Yn ystod y cyfnod hwn o ddirywiad economaidd, mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen ein bod yn cynnal ein hymdrechion i gynyddu'r mynediad at wasanaethau ariannol i bobl mewn ardaloedd incwm isel."[5]

Er bod nifer ohonom yn cymryd yn ganiataol ein bod yn gallu defnyddio unrhyw beiriant codi arian ni waeth pwy sy'n berchen arno neu gyda phwy rydym ni'n bancio, nid yw'r dewis hwn ar gael i nifer o bobl. Tua diwedd 2011, penderfynodd yr RBS Group (sy'n cynnwys y Royal Bank of Scotland a NatWest) na fyddai'n caniatáu i'w gwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol gael defnyddio'r rhwydwaith LINK. Roedd cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol Lloyds TSB a Bank of Scotland eisoes wedi colli'r mynediad hwn ers peth amser. O'r herwydd, mae'n rhaid i gwsmeriaid y cyfrifon hyn ddefnyddio'r peiriannau hynny sy'n perthyn i'w grŵp bancio neu i'r Swyddfa'r Post er mwyn codi eu harian.

Yn amlwg mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar gwsmeriaid sydd â chyfrifon banc sylfaenol, o ran pa mor hwylus yw cael gafael ar eu harian, ond ceir ystyriaeth ehangach hefyd, yn enwedig os bydd banciau a chymdeithasau adeiladu eraill yn dilyn yr un trywydd. Mae gostyngiad sylweddol yn nifer y trafodion sy'n cael eu gwneud ar rwydwaith LINK yn debyg o roi nifer o beiriannau codi arian mewn perygl, yn enwedig mewn ardaloedd â llai o boblogaeth neu ardaloedd difreintiedig. Gallai hyn arwain at eu cau neu gynnydd yn nifer y peiriannau mae'n rhaid talu i'w defnyddio a chynnydd yn eu ffi. Gallai'r gostyngiad mewn defnydd effeithio ar hyfywedd rhannau mawr o'r rhwydwaith, gan roi hwylustod a rhwyddineb cael gafael ar arian parod yn y fantol, sy'n rhywbeth mae cynifer ohonom wedi dod i'w ddisgwyl.

Roedd pryder ynghylch effaith y penderfyniad i gyfyngu ar fynediad i gwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol ynghyd â diddordeb ehangach yn yr effaith ar y rhwydwaith wedi arwain Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yn yr Alban i lansio prosiect ymchwil i edrych ar gael gafael ar arian. Yr adroddiad hwn yw penllanw'r prosiect hwnnw. Mae'n edrych ar ble a sut mae pobl yn cael gafael ar eu harian, ond mae hefyd yn edrych ar y cyfyngiadau. I'r perwyl hwn, mae'n edrych ar sut mae'r cyfyngiadau'n

4 http://www.citizensadvice.org.uk/index/out_of_pocket.htm
5 Datganiad i'r wasg gan LINK, 19 Rhagfyr 2008

effeithio ar gwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol ac ar sut gall anabledd a gwledigrwydd effeithio ar gael gafael ar rywbeth mae cynifer ohonom yn ei gymryd yn ganiataol – ein harian ein hunain. Mae LINK, sy'n goruchwylio rhwydwaith peiriannau codi arian y DU ar ran ei aelodau o weithredwyr ATM a chyhoeddwyr cardiau ATM, wedi ariannu'r ymchwil hwn. Mae'r dadansoddiad, y canfyddiadau a'r argymhellion yn annibynnol ar LINK a'r sefydliadau sy'n aelodau ohono.

Methodoleg yr ymchwil a'r ymateb

Cafodd arolwg o gleientiaid CAB, pobl sy'n mynd i sesiynau gallu ariannol ac aelodau'r cyhoedd ei gynnal yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2012. Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo drwy'r canolfannau, ar wefannau corfforaethol a chynghori Cyngor ar Bopeth a drwy gyfryngau cymdeithasol. Ar yr un pryd, cynhaliwyd arolwg o'r boblogaeth gyffredinol drwy Capibus sef arolwg omnibws wyneb yn wyneb Ipsos MORI. Mae copi o arolwg CAB ynghlwm yn Atodiad A; ac mae arolwg Ipsos MORI yn Atodiad B.

Cafwyd bron i 8,000 o ymatebion i arolwg CAB, er nad oedd pawb wedi ateb pob cwestiwn, felly mae'r cyfraddau sail yn wahanol i bob cwestiwn. Fel rhan o'r arolwg hwn, roedd pobl yn cael cyfle i ychwanegu eu sylwadau eu hunain am eu profiadau o godi arian ac roedd 1,000 o bobl wedi manteisio ar y cyfle hwn. Mae gennym felly ddata meintiol ac ansoddol. Roedd astudiaeth Ipsos MORI wedi arolygu sampl cynrychioladol o 1,970 o bobl yn eu cartrefi eu hunain drwy ddefnyddio gliniaduron cyfweliad personol drwy gyfrifiadur (CAPI).

Roeddem hefyd wedi cynnal cyfweliadau dilynol gyda rhai pobl ac arolwg dilynol gyda'r rheini roedd y cyfyngiadau'n effeithio arnynt ac a oedd wedi rhoi eu manylion cyswllt i ni.

Mae'r adroddiad hwn yn trin ac yn trafod canfyddiadau'r arolwg, gan eu rhoi yng nghyd-destun y farchnad bancio sylfaenol a gan ystyried y dystiolaeth maent yn eu rhoi ynghylch yr anawsterau wrth gael gafael ar arian. Rhoddir sylw penodol i'r problemau o ran cael gafael ar arian parod gartref ac wrth deithio, yr effaith a'r goblygiadau o ran diogelwch personol yn sgil penderfyniad diweddar RBS a NatWest i gyfyngu ar fynediad cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol i rwydwaith LINK. Mae'r adroddiad yn cloi drwy drafod goblygiadau canfyddiadau'r arolwg i'r dyfodol.



Canlyniadau'r arolwg

Canlyniadau cyffredinol

Pa mor bwysig yw cael gafael ar arian?

Mae'n hawdd iawn gweld pa mor bwysig yw'r mater hwn i'r cyhoedd yn sgil faint o ddiddordeb a ddangoswyd yn yr arolwg hwn gan ganolfannau a'u cleientiaid, ac yn y nifer eithriadol o uchel o ymatebion a gafwyd – bron i 8,000. Ym mis Mawrth 2006, roedd Cyngor ar Bopeth wedi cynnal ymgyrch i arolygu amlygrwydd ac effaith peiriannau codi arian sy'n codi ffi[6] a oedd wedi ennyn ymateb yr un mor uchel sef 7,500. Mae hyn yn dangos bod hyn yn bwysig i bobl a'u bod yn fodlon rhoi o'u hamser i gyflwyno sylwadau arno. Dywedodd y canolfannau eu bod hefyd wedi cael adborth cadarnhaol gan eu cleientiaid oherwydd eu bod wedi cael eu gwahodd i lenwi'r arolwg diweddar. Er enghraifft dywedodd un cleient ei fod yn falch iawn ei fod wedi cael ei holi am fater a oedd wir yn effeithio arno.

Sut a ble mae pobl yn cael gafael ar eu harian?

Roedd nifer fawr yn defnyddio peiriannau codi arian yn rheolaidd, gyda 90 y cant o'r ymatebwyr i arolwg CAB yn dweud eu bod fel rheol yn defnyddio peiriant codi arian i gael arian o'u prif gyfrif. Y dull mwyaf cyffredin nesaf oedd cael arian yn ôl mewn siopau. Dywedodd 18 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r dull hwn. Dywedodd 12 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio gwasanaeth cownter mewn cangen i gael gafael ar arian, ac roedd saith y cant yn defnyddio gwasanaeth cownter mewn swyddfa bost. Felly mae modd gweld mai peiriannau codi arian yw'r dull mwyaf poblogaidd o bell ffordd ar gyfer cael gafael ar arian.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r mathau o beiriannau codi arian roeddent yn eu defnyddio fel rheol – pob un a oedd yn berthnasol. Roedd chwe deg dau y cant yn defnyddio peiriannau a oedd yn perthyn i'w banc neu eu cymdeithas adeiladu eu hunain. Roedd chwe deg dau y cant hefyd yn defnyddio peiriannau a oedd yn berchen i fanc neu gymdeithas adeiladu wahanol neu gwmni gwahanol. Roedd dau ddeg pedwar y cant yn defnyddio peiriant codi arian â brand archfarchnad. Dim ond tri y cant o'r ymatebwyr ddywedodd eu bod yn defnyddio peiriant codi arian a oedd yn codi ffi. Yn gyffredinol mae'n ymddangos bod pobl yn manteisio i'r eithaf ar y rhyddid sydd ar gael drwy rwydwaith LINK i gael gafael ar eu harian drwy amrywiaeth o beiriannau gwahanol, ond yn gyffredinol bod pobl yn amharod i dalu am y cyfleuster i gael gafael ar eu harian. Roedd canran y defnyddwyr peiriannau codi arian yn arolwg Ipsos MORI sydd fel rheol yn defnyddio peiriant codi arian sy'n codi ffi hyd yn oed yn is, sef un y cant.

Dywedodd tri deg pedwar y cant o ymatebwyr arolwg CAB eu bod yn tueddu i ddefnyddio'r un peiriant i godi eu harian a dywedodd 44 y cant bod yna ychydig o beiriannau roeddent yn eu defnyddio'n aml. Dywedodd y 22 y cant arall nad oeddent yn defnyddio'r un peiriant yn rheolaidd. Gofynnwyd pam i'r rheini a oedd yn defnyddio'r un peiriant yn aml, neu'r un grŵp o beiriannau. Nid yw'n syndod mai hwylustod oedd y prif reswm dros ddefnyddio'r peiriant neu'r peiriannau, gydag 88 y cant yn dewis o leiaf un o'r atebion canlynol: 'Mae'n agos i fy nghartref'; 'Mae ar fy ffordd i'r gwaith/ysgol'; 'Mae'n agos i'r lle rwy'n

6 *Twll yn y Wal – Tystiolaeth CAB ynghylch effaith peiriannau rhoi arian parod sy'n codi tâl,* Gorffennaf 2006

mynd i siopa'. Dywedodd tri y cant eu bod yn ei ddefnyddio oherwydd nad oedd modd iddyn nhw ddefnyddio unrhyw beiriannau codi arian eraill.

Gofynnwyd i'r rheini a atebodd arolwg CAB beth fyddai'r effaith arnyn nhw petai dim ond modd iddyn nhw gael gafael ar arian drwy beiriannau eu banc neu eu cymdeithas adeiladu eu hunain. Dywedodd chwe deg tri y cant y byddai'n anoddach iddyn nhw gael gafael ar arian yn gyffredinol, gyda 37 y cant yn dweud y byddai'n anoddach o lawer. Wrth ofyn pa mor hawdd oedd cael gafael ar arian am ddim, dywedodd 94 y cant o'r ymatebwyr yn gyffredinol ei bod yn hawdd – canlyniad cadarnhaol iawn. Serch hynny, mae'n bwysig edrych ar grwpiau penodol yn yr arolwg er mwyn canfod a yw'r sefyllfa gadarnhaol hon yn adlewyrchu profiad pawb.

Canlyniadau yn ôl y math o gyfrif

Efallai nad yw'n syndod wrth ystyried proffil economaidd-gymdeithasol cleientiaid Cyngor ar Bopeth bod 53 y cant o'r rheini a lenwodd yr arolwg wedi dweud mai cyfrif banc sylfaenol oedd eu prif gyfrif. Mae hyn yn cymharu â dim ond saith y cant o arolwg Ipsos MORI o'r boblogaeth gyffredinol oedolion dros 15 oed.

Bwriad cyfrif banc sylfaenol yw bod yn gyfrif syml a chychwynnol sy'n caniatáu i'r unigolyn dderbyn arian i'r cyfrif a thalu biliau ohono. Mae'r cyfleusterau sydd ar gael i gyfrif o'r fath yn amrywio o un banc i'r llall, ond yn gyffredinol nid oes cyfleusterau gorddrafft ar gael. I nifer o bobl mae cyfrif banc sylfaenol yn gam cyntaf at agor cyfrif cyfredol llawn.

Er mai dim ond chwech y cant o'r rheini a atebodd yr arolwg ddywedodd ei bod yn anodd iddynt gael gafael ar eu harian am ddim, wrth ddadansoddi'r ffigur hwn yn ôl cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol a chyfrifon banc cyfredol, mae'r ffigurau yn wyth y cant ac yn bedwar y cant y naill a'r llall. Ar gyfer defnyddwyr sydd â chyfrif banc sylfaenol gyda banc sydd ddim ond yn caniatáu codi arian o'i beiriannau ei hun, mae'r gyfran sy'n ei chael hi'n anodd yn codi i 12 y cant – un o bob wyth – ymateb llai cadarnhaol o lawer.

Hwylustod yw'r prif ffactor sy'n pennu pa beiriannau codi arian bydd cwsmeriaid cyfrifon sylfaenol a chyfredol yn eu defnyddio. Serch hynny, dywedodd pedwar y cant o'r rheini sydd â chyfrifon banc sylfaenol a atebodd arolwg CAB nad oeddent yn gallu defnyddio unrhyw beiriannau codi arian eraill, sy'n uwch na'r un y cant o gwsmeriaid cyfrifon cyfredol. Mae'r ffigur hwn yn codi i 10 y cant ar gyfer y cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol hynny gyda banciau sy'n cyfyngu mynediad i'w peiriannau eu hunain. Er efallai fod sawl rheswm sy'n golygu bod pobl dim ond yn cael defnyddio rhai peiriannau, er enghraifft pellter a symudedd, mae'n anodd peidio â dod i'r casgliad bod y cyfyngiad yn chwarae rhan fawr wrth egluro'r cynnydd yn y ffigur hwn.

Rhwystrau rhag cael gafael ar arian parod

Cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol

'Mae gen i gyfrif banc sylfaenol gyda fy manc. Roeddwn i'n arfer gallu codi arian o unrhyw ATM LINK. Dros y misoedd diwethaf mae fy manc wedi penderfynu mai dim ond o'i ATMs ei hun gall pobl sydd â chyfrifon banc sylfaenol godi arian nawr. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i mi ddefnyddio un ATM sy'n anhwylus iawn oherwydd mae'n rhaid i mi fynd yn unswydd i fy nghangen yn ystod yr oriau agor, ac rwy'n gweithio'n amser llawn yn ystod yr wythnos. Dim ond ar ddydd Sadwrn rwy'n gallu mynd sy'n golygu ciwio am hanner awr fel rheol. Er bod rhai yn dadlau byddai hyn yn ffordd dda o gwtogi ar wariant, roedd gallu cael gafael ar fy arian parod mewn unrhyw ATM wedi bod yn hollbwysig pan roedd angen arian arnaf i'n gyflym am resymau brys doedd dim modd eu rhagweld.'
Un o ymatebwyr arolwg CAB

Mae cyfrifon banc sylfaenol yn darparu gwasanaeth hanfodol i'r rheini sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at y byd ariannol beunyddiol mae nifer ohonom ni'n ei gymryd yn ganiataol, boed hynny oherwydd incwm isel, hanes ariannol gwael neu brofiad cyfyngedig o fancio. Cawsant eu creu ar eu ffurf bresennol ar ddechrau'r 2000au, yn dilyn gwaith gan Drysorlys EM. Mewn adroddiad ym 1999 canfu Trysorlys EM fod 'sicrhau mynediad at gyfrif banc yn sylfaen bwysig ar gyfer helpu i roi cartrefi ar incwm isel mewn sefyllfa i reoli eu harian yn effeithiol, yn ddiogel ac yn hyderus'[7].

Mae cyfrifon banc sylfaenol yn golygu bod modd talu incwm o gyflogau, budd-daliadau neu bensiynau yn uniongyrchol i gyfrifon pobl, codi arian parod, a thalu biliau drwy ddebyd uniongyrchol. Serch hynny, mae ganddynt fudd ehangach hefyd, gan eu bod yn ffordd at wasanaethau ariannol prif ffrwd eraill, er enghraifft cynilion neu gredyd. Roedd ystadegau gan Gymdeithas Bancio Prydain a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010 yn dangos er mis Ebrill 2003 fod tua hanner miliwn o gyfrifon banc sylfaenol wedi cael eu huwchraddio i gyfrifon â rhagor o nodweddion[8].

Nid oes dim safonau sylfaenol ar gyfer cyfrif banc sylfaenol, ac mae'r cyfleusterau'n amrywio o un darparwr i'r llall. Serch hynny, roedd argymhellion gwreiddiol o adroddiad Trysorlys EM y cyfeirir ato uchod yn cynnwys 'codi arian ar bwyntiau mynediad hwylus'. Ac ym mis Rhagfyr 2010, roedd Tasglu Ariannol Llywodraeth y DU, gan adrodd ar wasanaethau bancio a chartrefi tlotach, yn argymell bod banciau yn 'ehangu mynediad ac yn gwella nodweddion' eu cyfrifon banc sylfaenol.

Mae penderfyniad rhai banciau i dynnu eu cwsmeriaid banc sylfaenol o'r rhwydwaith LINK, ac felly eu hatal rhag codi arian mewn unrhyw beiriannau ac eithrio peiriannau eu banc eu hunain, yn mynd yn hollol groes i'r argymhellion hyn. Rydym yn deall nad yw'r banciau sydd wedi gwneud y penderfyniad hwn yn credu bod y polisi'n rhy niweidiol i'w cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol oherwydd eu bod wedi cymryd camau i sicrhau bod

7 Adroddiad Tîm Gweithredu Polisi Trysorlys EM 14 – cyfeirir ato yn adroddiad y Tasglu Cynhwysiant Ariannol: Banking services and poorer households, Rhagfyr 2010
8 *Basic Bank Accounts: Statistics, 29 Mehefin 2010*, Cymdeithas Bancio Prydain

peiriant codi arian ar gael o fewn pellter rhesymol i'w cartref sy'n golygu bod eu cwsmeriaid yn gallu cael gafael ar arian neu maent wedi gwneud trefniadau addas eraill ar eu cyfer. Byddai sylwadau a gafwyd yn arolwg CAB, y byddwn yn edrych arnynt yn nes ymlaen, yn awgrymu nad yw hyn bob amser wedi bod yn wir. Er gwaethaf ymdrechion a wnaed i'r perwyl hwn, nid yw mynediad posibl yn golygu'r un fath â mynediad hwylus.

Rhan o ddiben cyfrifon banc sylfaenol yw annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau bancio'n gyfrifol. Mae sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn hwylus ac yn hawdd eu defnyddio yn hollbwysig i'r nod hwn. Mae hyn yn arbennig o wir i bobl ifanc. Efallai mai cyfrif banc sylfaenol fydd eu profiad cyntaf o wasanaethau bancio a byddai profiad cadarnhaol yn gallu hybu cyfrifoldeb ariannol yn y dyfodol. Roedd tystiolaeth o arolwg CAB ac arolwg Ipsos MORI yn dangos bod gan ganran uwch o bobl ifanc (rhwng 15 a 25 oed) gyfrif banc sylfaenol na'r rheini yn y categorïau oed hŷn.

Derbynnir bod swyddogaethau cyfrif banc sylfaenol yn gyfyngedig oherwydd ei natur. Er enghraifft nid yw'n bosibl cael gorddrafft ar y cyfrifon hyn. Mae cyfyngiad o'r fath yn hollol ddealladwy mewn cyfrif lle gallai'r cwsmeriaid fod â record credyd gwael neu efallai eu bod yn ceisio cadw rheolaeth dynn ar eu gwariant. Nid yw mor hawdd cyfiawnhau cyfyngiad sy'n effeithio ar allu'r cwsmeriaid hyn i gael gafael ar eu harian pan fydd ei angen arnynt. Caiff effaith hyn ei waethygu gan y ffaith bod y rheini sydd ar incwm is yn tueddu i ddefnyddio arian parod yn amlach fel ffordd o gyllidebu a rheoli eu harian, gan godi symiau llai yn amlach. Felly gellid dadlau bod angen mwy o hyblygrwydd arnynt ac nid llai.

Roedd arolwg Ipsos MORI o'r boblogaeth yn gyffredinol wedi gofyn i bobl nodi pa mor aml roeddent yn codi arian parod o'u cyfrifon. Dywedodd tri deg un y cant o'r ymatebwyr yn y grŵp cymdeithasol DE eu bod yn codi arian parod bob pedwar i bum diwrnod neu'n amlach, a 30 y cant yn y grwpiau cymdeithasol C1 a C2, o'i gymharu â 22 y cant yn y grŵp cymdeithasol AB. Mae un sylw gan unigolyn a atebodd arolwg CAB yn dangos sut gall defnyddio arian parod helpu i gyllidebu:

> 'Rydym wedi newid sut rydym yn rheoli ein harian ac rydym nawr yn talu am ein bwyd ac ati mewn arian parod yn lle defnyddio ein cardiau debyd. Mae hyn yn golygu ein bod yn gwybod yn union faint o arian sydd gennym ar gael i'w wario a faint fydd gennym ar ôl o'n cyllideb fwyd. Byddai'n anodd iawn, ac yn ddrud iawn mae'n debyg, petai'n rhaid i ni ddibynnu ar ein cardiau debyd.'

Mae'n debyg mai'r gost yw un o'r prif resymau dros y penderfyniad gan rai banciau i atal mynediad i'r rhwydwaith LINK. Rhaid talu am holl drafodion LINK, sy'n digwydd pan fydd rhywun yn defnyddio peiriant codi arian nad yw'n berchen i'w banc neu eu cymdeithas adeiladu eu hunain. Yn gyffredinol ni ystyrir bod cyfrifon banc sylfaenol yn broffidiol iawn i fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes taliad misol, fel sy'n bodoli ar gyfer cyfrif cyfredol mewn pecyn, ac nid yw'n bosibl codi ffioedd am ddarparu gorddrafft. Mae cwsmer ar incwm isel hefyd yn debyg o fod â swm cymharol fach o arian yn ei gyfrif, sy'n golygu llai o gyfle i fanciau ennill

elw ar yr arian. At ei gilydd nid yw cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol sydd o bosibl wedi bod mewn trafferth ariannol yn y gorffennol, sy'n ennill incwm isel, neu sydd efallai am agor cyfrif banc sylfaenol er mwyn monitro eu gwariant eu hunain yn ofalus, yn ddeniadol iawn i fanciau a chymdeithasau adeiladu.

Ar hyn o bryd, dim ond dau fanc yn y Lloyds Banking Group (Lloyds TSB a'r Bank of Scotland) a'r RBS Group (Royal Bank of Scotland a NatWest) sydd wedi penderfynu diddymu'r mynediad i rwydwaith LINK o blith y prif ddarparwyr gwasanaethau bancio. Mae'n bosibl i gwsmeriaid sydd â chyfrif banc sylfaenol gydag un o'r banciau hyn naill ai uwchraddio eu cyfrif neu fynd at fanc arall, ond mae'r gallu i wneud hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar a fyddai'r banciau eraill yn caniatáu iddynt agor cyfrif. Serch hynny, ar gyfer banciau a chymdeithasau adeiladu sy'n cynnig mwy o hwylustod a hyblygrwydd i'w cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol, yr ofn yw y byddant yn dechrau cael cyfran uwch o lawer o'r cyfrifon llai proffidiol hyn na'u cystadleuwyr.

Ceir gwir berygl felly y bydd banciau a chymdeithasau adeiladu eraill yn dilyn y penderfyniad hwn ac yn dileu'r posibilrwydd i'w cwsmeriaid banc sylfaenol ddefnyddio rhwydwaith LINK. Mawr obeithiwn na fyddant yn dilyn y trywydd hwn, a byddem yn galw ar y banciau hynny sydd wedi cyflwyno'r cyfyngiad hwnnw i newid eu meddwl cyn gynted ag sy'n bosibl. Yn yr adran ganlynol rydym yn nodi rhai o'r problemau mae ymatebwyr arolwg CAB wedi'u hwynebu o ganlyniad i'r polisi hwn.

Anawsterau wrth gael gafael ar arian wrth deithio

I'r rhan fwyaf ohonom, y peth olaf mae angen i ni feddwl amdano wrth deithio o amgylch y DU, boed hynny ar fusnes neu am bleser, yw 'ble gaf i arian parod?' Rydym yn disgwyl y bydd peiriannau codi arian ar gael. Yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell, efallai byddwn yn wynebu penderfyniad ynghylch a ydym yn defnyddio peiriant sy'n codi ffi neu'n chwilio'n rhywle arall am beiriant sydd am ddim, ond ni fydd yn rhaid i ni boeni na fydd ein cerdyn yn gweithio mewn unrhyw beiriant. Serch hynny dyma'r sefyllfa sy'n wynebu nifer o gwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol, fel sydd i'w weld drwy'r sylwadau canlynol a gafwyd yn arolwg CAB.

> 'Dim ond yn ddiweddar mae RBS wedi cyflwyno hyn, nid yw'n ormod o broblem yn y dref, ond mae'n creu problemau mewn trefi llai neu bentrefi heb gangen o RBS.'

> 'Mae'n rhwystredig pan fydda i allan ac angen arian parod ei bod yn rhaid i mi chwilio am beiriant codi arian/banc NatWest a dydyn nhw ddim bob tro ar gael.'

> 'Dwi'n teimlo ei bod yn annheg mai dim ond peiriant codi arian NatWest rwyf yn cael ei ddefnyddio, ac mae fy ngŵr yn gweithio ar hyd a lled y wlad ac nid yw'n hawdd iddo ddod o hyd i NatWest.'

‘Er nad yw cael gafael ar beiriannau codi arian yn broblem yn fy nhref leol, rwyf yn tueddu i deithio llawer, ac nid yw bob tro’n bosibl neu’n hwylus dod o hyd i beiriant codi arian NatWest/RBS. Fydda i ddim chwaith eisiau chwilio am archfarchnad a gwario arian er mwyn cael arian yn ôl. Heb sôn am ddod o hyd i swyddfa bost...’

Anawsterau gartref

Er gwaethaf y sicrwydd y cyfeirir ato uchod gan y banciau sydd wedi cyflwyno’r cyfyngiad hwn, ymddengys fod nifer o bobl yn wynebu anawsterau go iawn wrth gael gafael ar eu harian hyd yn oed pan fyddant yn agos at gartref, fel y gwelir drwy’r sylwadau canlynol o’r arolwg.

‘Mae yna un peiriant codi arian rwy’n gallu ei ddefnyddio gyda fy nghyfrif sylfaenol NatWest yn fy ardal, ond mae’n 10 munud i ffwrdd mewn car. Mae yna un rwy’n gallu ei ddefnyddio wrth ymyl fy ngwaith, ond eto, mae’n 15 munud i ffwrdd mewn car.’

‘Mae’r peiriant codi arian agosaf rwy’n gallu ei ddefnyddio bum milltir i ffwrdd sy’n golygu ei bod yn 10 milltir yno ac yn ôl. Gan fy mod yn anabl mae’n anodd iawn ac yn rhwystredig iawn gan fod peiriant 200 llath oddi wrth fy nghartref ond dwi ddim yn cael defnyddio hwnnw.’

‘Gan fod gen i gyfrif NatWest, dim ond peiriannau codi arian y grŵp RBS rwy’n cael eu defnyddio. Dim ond un peiriant RBS sydd o fewn pellter cerdded i fy nhŷ/ngwaith. Os na fydd yn gweithio mae’n rhaid i mi gael benthyg arian fel rheol nes ei fod yn gweithio’n iawn eto.’

Nid yw’r dulliau eraill o gael gafael ar arian parod fel defnyddio’r cyfleuster arian yn ôl neu wasanaeth cownter Swyddfa’r Post bob tro’n ateb i’r rheini sydd heb beiriannau codi arian hwylus mae modd iddyn nhw eu defnyddio. Rhaid prynu rhywbeth er mwyn cael arian yn ôl, a all fod yn gost ychwanegol ddiangen, ac nid yw hi bob tro’n hawdd cael gafael ar swyddfa bost.

‘Mae’n chwerthinllyd mai dim ond allan o beiriannau Lloyds TSB galla i godi arian. Maen nhw’n dweud bod modd i mi godi arian dros y cownter mewn unrhyw swyddfa bost ond rwy’n gweithio rhwng 9am a 5pm felly does dim modd i mi fynd i’r swyddfa bost. Mae’n niwsans gorfod teithio’n bell i godi arian o un o beiriannau Lloyds TSB a hwnnw ddim yn gweithio.’

Rwyf gydag RBS ond rwyf yn byw mewn pentref heb ATM RBS. Gan nad ydynt yn cysylltu mwyach, yn aml byddaf yn prynu pethau nad oes arnaf eu heisiau a chiwio yn y siop leol er mwyn cael arian yn ôl.’

‘Dim ond llynedd roedd yn rhaid i mi ddechrau codi fy arian o RBS, NatWest ac Ulster. Cyn hynny roeddwn yn gallu gwneud hynny o unrhyw beiriant. Mae’r newid wedi achosi llawer o broblemau i mi gan ei bod yn rhaid i mi deithio dros dair milltir i beiriant codi arian i gael gafael ar fy arian. Ar hyn o bryd rwyf yn ystyried cau fy nghyfrif gan nad wyf yn ei ddefnyddio llawer rhagor. Er mwyn codi arian mae’n rhaid i mi ddefnyddio arian yn ôl a mynd i swyddfa bost a chael arian dros y cownter. Ond alla i ddim bob amser edrych i weld faint sydd ynddo ac felly rwyf bob amser yn poeni am fynd i’r coch.’

Er gwaethaf ymdrechion gorau’r banciau dan sylw i roi gwybod i’r cwsmeriaid perthnasol am y newid, mae’n ymddangos nad oedd rhai pobl wedi cael yr wybodaeth hon.

‘Rwyf yn anabl ac mae’n anodd iawn i mi fynd allan os na fyddaf yn dda ac wedi rhedeg allan o arian parod. Cefais wybod bod y banc yn gwneud hyn oherwydd ei bod yn costio iddyn nhw pan fyddwn ni’n defnyddio peiriannau codi arian banciau eraill. Mae’n warthus nad oedden nhw hyd yn oed wedi dweud wrthym pa beiriannau gallem ni eu defnyddio. Byddai wedi bod yn braf cael rhestr o’r peiriannau roedd modd i ni eu defnyddio yn ein hardal leol.’

‘Y tro cyntaf i mi roi cynnig ar ddefnyddio peiriant ar wahân i un RBS ar ôl i’r cyfyngiad ddod i rym fe ges i neges gyffredinol a oedd yn awgrymu nad oedd gen i arian yn y cyfrif ac fe wnaeth hyn fy nrysu’n llwyr, gan fy mod yn gwybod bod gen i arian yn fy nghyfrif. Wnes i ddim sylweddoli pam nad oedd modd i mi godi arian tan y diwrnod canlynol.’

I rai a atebodd yr arolwg, yn anffodus mae’n glir iawn bod straen ychwanegol wedi cael ei roi ar fywydau sydd eisoes yn anodd yn sgil penderfyniad eu banc i gyfyngu ar fynediad at arian parod.

‘Byddai’n well o lawer gen i allu defnyddio’r holl beiriannau codi arian fel roeddwn i’n arfer ei wneud cyn i NatWest osod y cyfyngiadau. Pam wnaethon nhw hyn? Dwi’n dioddef o iselder ac yn gwella ar ôl canser – does arnaf i ddim eisiau mynd allan o’r tŷ yn aml. Rwy’n byw gyferbyn â thri pheiriant codi arian... Alla i ddim defnyddio’r un ohonyn nhw.’

‘Mae fy manc eisoes wedi gwneud newid sy’n golygu mai dim ond ei beiriannau codi arian rwy’n cael eu defnyddio. Rwy’n mynd heb fwyd ac ati yn rheolaidd oherwydd ei bod hi’n anodd i mi gyrraedd y peiriant codi arian sy’n berchen i fy manc oherwydd fy mhroblemau iechyd meddwl.’

Materion sy'n ymwneud â diogelwch a chyfrifoldeb ariannol

Mae hyn wedi golygu ei bod yn anoddach i rai pobl gael gafael ar eu harian ac felly maent yn codi mwy o arian nag y byddent yn ei wneud fel arall pan fyddant yn dod o hyd i beiriant mae modd iddyn nhw ei ddefnyddio. Yn naturiol mae gan hyn oblygiadau diogelwch o ran perygl uwch o ddwyn neu golli arian. Serch hynny, nid yw polisi sy'n annog pobl i godi mwy o arian nag sydd ei angen arnyn nhw mewn gwirionedd yn helpu i hybu cyfrifoldeb ariannol, sef un o nodau bancio sylfaenol. Yn yr un modd, pa mor aml gawn ni rybuddion ynghylch peidio â rhannu ein rhif PIN â neb? Ond i rywun sy'n wynebu cyfyngiad difrifol ar sut gallant gael gafael ar eu harian, weithiau nid oes dewis arall.

'Rwyf yn bancio gydag RBS a dim ond eu peiriannau codi arian nhw neu beiriannau codi arian NatWest rwyf yn gallu eu defnyddio. Mae fy nghangen o RBS tua milltir i ffwrdd o fy nghartref ac mae'r NatWest agosaf tua hanner milltir i ffwrdd. Rwy'n byw yn eithaf canolog ac yn pasio o leiaf 10 peiriant codi arian parod sy'n perthyn i fanciau/siopau eraill lle na allaf godi arian wrth fynd i fy nghangen agosaf o NatWest. Os byddaf ar frys neu'n mynd i'r dref i gael eitem benodol, gall hyn fod yn rhwystredig. Rwyf yn tueddu i godi mwy o arian nag sydd ei angen arnaf fel bod gennyf arian 'wrth gefn' ond nid yw hyn yn beth da bob tro oherwydd rwy'n tueddu i wario'r arian sydd gennyf yn fy mhwrs!'

'Pam mae'r Royal Bank of Scotland wedi gorfodi ei gwsmeriaid i ddefnyddio ei beiriannau codi arian ei hun neu rai NatWest sydd bedair milltir i ffwrdd oddi wrthyf fi mewn car a does gen i ddim car felly mae'n rhaid i mi ddibynnu ar bobl eraill i godi'r arian ar fy rhan? Mae hyn mor annheg ac maen nhw'n gwrthod ateb y cwestiwn hwn er fy mod wedi gofyn iddyn nhw!'

Ceir materion diogelwch mwy difrifol hefyd i'r rheini sydd nawr â llai o ddewisiadau er mwyn cael gafael ar arian parod pan fydd ei angen arnynt fwyaf.

'Dim ond ym mheiriannau NatWest wyf fi'n cael defnyddio fy ngherdyn NatWest. Rwyf wedi rhoi cynnig arni mewn peiriannau eraill ond heb lwyddiant. Roedd yn rhaid i mi gael tacsi i dŷ fy merch o orsaf drenau Huddersfield ond dim ond peiriant Lloyds TSB oedd ganddyn nhw felly roeddwn i'n crwydro o amgylch Huddersfield ar fy mhen fy hun min nos yn ceisio dod o hyd i beiriant NatWest. Mae hyn yn beryglus. Roeddwn i'n meddwl bod peiriannau LINK i bawb.'

'Mae fy nhelerau ac amodau wedi newid yn ddiweddar ar gyfer fy nghyfrif banc sylfaenol gyda NatWest. Dim ond peiriannau NatWest neu RBS rwyf fi'n cael eu defnyddio nawr, sy'n golygu ei bod yn anoddach cael gafael ar arian parod. Os oeddwn i'n sownd yn rhywle, fyddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud! Roeddwn i'n arfer gallu defnyddio unrhyw beiriant ac roedd hynny'n rhoi tawelwch meddwl i mi.'

Y posibilrwydd i newid cyfrifon

Wrth ystyried y problemau sy'n wynebu'r rheini sydd wedi dod o dan y cyfyngiadau, nid yw'n syndod bod nifer o bobl a atebodd yr arolwg wedi dweud eu bod wedi newid eu banc neu eu math o gyfrif neu eu bod yn bwriadu gwneud hynny. Serch hynny mae'r sefyllfa hon yn achosi pryder am nifer o resymau. Yn y lle cyntaf, un o'r rhesymau dros gael cyfrif banc sylfaenol yw oherwydd anawsterau ariannol blaenorol, ac nid yw bob tro'n bosibl newid neu uwchraddio cyfrifon os oes gan yr unigolyn hanes credyd gwael.

> 'Rwyf wedi bod gyda fy manc ers dros dair blynedd a dim ond eu peiriannau nhw rwy'n cael eu defnyddio o hyd. Dwi'n gweithio'n amser llawn, mae gen i gyfrif cynilion gyda nhw, mae gen i arian yn y cyfrif bob amser ond bob tro byddaf yn gofyn am gael defnyddio cerdyn mewn peiriannau eraill, maen nhw'n gwrthod. Rwyf hyd yn oed wedi gofyn am gael uwchraddio fy nghyfrif a thalu ffi fisol er mwyn i mi gael gwneud hyn. Roeddwn i wedi ceisio cael cerdyn credyd i brofi fod fy nghredyd i'n iawn a chefais fy nerbyn. Roedd hyn wedi eu synnu ond roedden nhw'n dal i wrthod i mi ddefnyddio peiriannau eraill.'

Yn yr enghraifft hon roedd yr unigolyn dan sylw'n fodlon uwchraddio i gyfrif gwahanol a thalu ffi, er na chafodd ei dderbyn. Mae sylwadau eraill gan ymatebwyr yr arolwg yn awgrymu bod uwchraddio'n ddewis sy'n cael ei gynnig gan fanciau i gwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol sydd yn y sefyllfa gyfyngedig hon, ond nid yw'r gost ychwanegol dan sylw o fewn cyrraedd rhai pobl. Nid yn unig hynny, ond nid yw cyfrifon mewn pecyn sy'n cynnig nifer o fanteision ychwanegol fel yswiriant am ffi fisol, o reidrwydd yn cynnig y gwerth gorau am arian i'r unigolyn, hyd yn oed os ydynt yn cynnig proffidioldeb gwell i'r banciau.

> 'Mae gen i gyfrif sylfaenol gan nad wyf fi'n gallu cael cyfrif cyfredol. Mae NatWest wedi dweud wrthyf fi mai'r unig ffordd alla i ddefnyddio unrhyw beiriant yw newid cyfrifon a thalu £8 bob mis. Dim ond tua £180 y mis sydd gen i'n mynd i mewn i'r cyfrif hwn, felly ni fyddai werth gwneud hynny.

> 'Rwyf wedi gorfod newid i fanc y Co-op er mwyn i mi allu defnyddio peiriannau codi arian eraill. Mae hyn wedi achosi llawer o drafferth oherwydd newid y cyflog a'r budd-daliadau i fynd i gyfrif arall. Rwyf wrthi'n cau'r cyfrif NatWest yn araf ac rwyf yn meddwl bod cywilydd arnyn nhw am newid eu gwasanaeth ar ôl i mi fod gyda nhw ers 12 o flynyddoedd. Unig opsiwn NatWest yw cynnal ymchwiliad i statws credyd ar gyfer cyfrif banc gyda buddion ac nid oes arnaf eisiau cost fisol o £8 a fyddwn i ddim yn pasio'r ymchwiliad i statws credyd oherwydd hanes adfeddiannu tŷ. Mae banc y Co-op wedi bod yn well o lawer gyda mi.'

Fel mae'r enghraifft olaf hon yn ei ddangos, mae'n braf gweld bod llefydd ar gael i bobl er mwyn cael y cyfleusterau cyfrif banc sylfaenol sydd eu hangen arnyn nhw.

Gobeithir na fydd dim banciau na chymdeithasau adeiladu eraill yn penderfynu gwrthod mynediad i'w cwsmeriaid cyfrif banc sylfaenol i'r rhwydwaith LINK.

Y rhwydwaith peiriannau codi arian

Drwy ddarllen y sylwadau a gafwyd yn yr arolwg nid yw'n bosibl dweud i ba raddau mae pobl sydd â'r cyfrifon cyfyngedig hyn yn deall eu bod yn gallu defnyddio peiriannau sy'n perthyn i'w grŵp bancio, yn hytrach na dim ond y rheini sy'n dangos enw eu banc nhw. Er enghraifft mae peiriannau codi arian archfarchnadoedd Tesco a Morrisons yn perthyn i RBS/NatWest, ac felly mae modd i gwsmeriaid eu cyfrifon banc sylfaenol eu defnyddio, ac mae modd i gwsmeriaid cyfrifon Lloyds TSB a Bank of Scotland ddefnyddio peirannau Halifax hefyd. Rydym yn gwerthfawrogi bod gan y banciau sydd wedi gwneud y penderfyniad hwn lawer iawn o beiriannau codi arian ar hyd a lled y DU. Ar ddiwedd 2011, roedd RBS a NatWest yn berchen ar 8,350 o beiriannau codi arian; ac roedd gan Lloyds TSB, Bank of Scotland[9] a Halifax 6,580[10]. Serch hynny, mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli dim ond 13 y cant a 10 y cant y naill a'r llall o nifer y peiriannau ar rwydwaith LINK, ac felly mae'r penderfyniad sydd wedi cael ei wneud yn cynrychioli gostyngiad enfawr mewn dewis a hwylustod i'r cwsmeriaid yr effeithir arnynt.

Yn sicr mae tegwch y penderfyniad hwn yn rhywbeth y mae nifer o bobl sy'n teimlo ei effaith ag achos da dros ei gwestiynu.

> 'Mae gen i gyfrif debyd sylfaenol – dwi ddim yn deall – gan na alla i gael gorddrafft, fi sydd biau'r arian sydd gen i yn y cyfrif ond mae'n anoddach cael gafael arno drwy beiriannau ATM banciau eraill ar wahân i TSB sef fy manc i. Siawns y dylai fod yn anoddach i'r rheini sydd â chardiau credyd ac ati!'

> 'Mae fy ngwraig a minnau wedi gorfod teithio'n bell allan o'n ffordd droeon i godi arian o fanc neu ATM RBS, gan fod yr ATM yn yr archfarchnad yn gwrthod derbyn ein cerdyn RBS. Ers hynny rwyf wedi agor cyfrif yn yr un banc sy'n caniatáu i mi ddefnyddio unrhyw ATM, ond rwy'n anfodlon bod pobl sy'n defnyddio'r cardiau hyn yn wynebu'r anhwylustod hwn a does dim modd iddyn nhw gael cyfrif â mwy o fanteision.'

Ar wahân i'r anawsterau sylweddol a gaiff y rheini sy'n wynebu'r cyfyngiadau hyn, mae angen ystyried goblygiad ehangach arall. Fel rydym wedi'i ddweud, ar y wyneb, yn gyffredinol mae'r sefyllfa bresennol wrth ystyried mynediad at arian parod yn gadarnhaol. Mae canlyniadau o arolwg CAB yn dangos nad yw'r rhan fwyaf ohonom yn credu ei bod yn anodd cael gafael ar ein harian am ddim. Mae arnom eisiau i'r sefyllfa aros fel hyn, ac mae hyn yn golygu diogelu rhwydwaith sy'n caniatáu i ni ddefnyddio'r hyblygrwydd i godi arian ble a phryd mae angen i ni wneud hynny. Gallai tynnu nifer fawr o drafodion oddi wrth y rhwydwaith beryglu ei effeithiolrwydd yn y dyfodol, yn enwedig os bydd banciau neu gymdeithasau adeiladu eraill yn dilyn yr un trywydd ac yn tynnu eu cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol oddi wrth y rhwydwaith. Mae'r gostyngiad yn nifer y cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol yn debyg o gael effaith fwy mewn ardaloedd incwm is. Bydd llai o draffig yn lleihau cost effeithiolrwydd peiriannau codi arian yn yr ardaloedd hynny, a allai roi darparwyr peiriannau codi arian annibynnol allan o fusnes a gwyrdroi'r gwelliannau sylweddol sydd wedi cael eu

9 Gall cwsmeriaid cyfrifon Bank of Scotland hefyd ddefnyddio peiriannau codi arian Sainsbury's ac roedd 1,272 o'r rheini ar ddiwedd 2011.
10 Gwefan LINK

gwneud mewn argaeledd peiriannau dros y pum mlynedd diwethaf.

Roedd nifer o bobl nad oeddent wedi'u cyfyngu yn y ffordd hon wedi dewis cyflwyno sylwadau ar y mater, fel y gwelir yn yr enghreifftiau isod:

'Rwy'n rhiant sengl a dyw hi ddim bob tro'n hawdd i mi fynd i'r ddinas agosaf. Er enghraifft, does dim peiriant codi arian Halifax yn y dref lle rwy'n siopa. Rwy'n gweithio mewn dinas arall a does dim ATM gerllaw, felly byddai hyn yn gwneud fy mywyd yn anoddach o lawer o ran cael gafael ar arian. Nawr rwy'n gallu picio i fy archfarchnad leol wrth siopa a chodi'r arian sydd ei angen arnaf i ar gyfer yr wythnos.'

'Rwy'n meddwl y byddwn i'n gwario mwy o arian os mai dim ond peiriant arian fy manc fy hun byddwn i'n gallu ei ddefnyddio. Y rheswm am hynny yw does gan fy manc ddim peiriant codi arian sydd o fewn pellter cerdded hawdd i fy nghartref nac ar fy ffordd i'r gwaith. Byddai'n rhaid i mi fynd allan o fy ffordd i godi arian. Ar hyn o bryd rwy'n codi arian yn ôl yr angen er mwyn lleihau faint o arian parod rwy'n ei wario. Pan rwyf wedi codi symiau mawr yn y gorffennol, rwyf wedi'i wario'n gynt na chodi ychydig o arian yn aml. Petai dim ond modd i mi ddefnyddio peiriannau codi arian fy manc fy hun byddai fel mynd nôl i'r 1970au pan roeddwn i'n arfer mynd gyda fy nhad yn y car i'r peiriant codi arian agosaf ar fore Sadwrn i gael arian ar gyfer y penwythnos. Dydy hyn ddim yn addas i fyd modern!'

''Oherwydd bod gan mam dementia fasgwlaidd ac arthritis, byddai'n rhaid i mi drefnu tripiau i un banc HSBC yn lleol lle mae yna le parcio wrth ymyl fel rheol. Neu dalu rhywun i ofalu amdani pan fyddwn i'n mynd i beiriant codi arian hebddi.'

Efallai fod y sylw olaf uchod yn dweud y cyfan. I'r rheini ohonom sydd ddim yn meddwl ddwywaith ynghylch pwy sy'n berchen ar beiriant codi arian cyn i ni ei ddefnyddio, ac sy'n disgwyl gallu cael gafael ar ein harian ble bynnag a phryd bynnag, mae unrhyw beth arall yn ymddangos fel cam yn ôl i'r gorffennol. A dweud y gwir, fel cymdeithas mae'n debyg y byddai cyfyngiad o'r fath ar ein dewisiadau yn ein gwylltio'n gacwn. Ond mae nifer o bobl nawr yn wynebu'r cyfyngiad hwn.

Wrth ystyried hyn i gyd, byddem yn pwyso ar y banciau hynny sydd wedi penderfynu cyfyngu ar fynediad cwsmeriaid eu cyfrifon banc sylfaenol i arian parod newid eu polisi; gan alw hefyd ar fanciau a chymdeithasau adeiladu eraill i gynnal y mynediad presennol i'r rhwydwaith LINK sy'n cael ei fwynhau gan eu holl gwsmeriaid.

Gwasanaeth cownter

Dywedodd deuddeg y cant o'r rheini a ymatebodd i arolwg CAB eu bod fel rheol yn defnyddio cownter mewn cangen banc i gael gafael ar eu harian. Er bod hyn yn llai o lawer na'r rheini sydd fel rheol yn defnyddio peiriant codi arian, mae hyn yn dal i gynrychioli bron i 1,000 o bobl. Ac roedd y ganran fymryn yn uwch yn arolwg Ipsos MORI o'r boblogaeth gyffredinol sef 15 y cant o'r bobl a oedd yn codi arian. Mae gallu mynd i ganghennau'n

dal yn bwysig i bobl. Mae sylwadau gan rai pobl a atebodd arolwg CAB yn awgrymu bod materion sy'n ymwneud â diogelwch yn un rheswm dros hyn.

> 'Fydda i ddim yn defnyddio peiriannau codi arian, rwy'n credu bod eu lleoliad ar y stryd yn golygu fy mod i'n agored iawn i niwed. Dim ond o gownter y banc neu wrth y til mewn archfarchnad fydda i'n cael arian fel rheol oherwydd fy mod yn credu bod hynny'n fwy diogel.'

> 'Dwi ddim yn defnyddio peiriannau codi arian. Mae gen i ofn iddyn nhw lyncu fy ngherdyn. Dwi ddim yn hoffi cael pobl tu cefn i mi mewn ciw rhag ofn i rywun ddwyn fy arian.'

> 'Mae'r henoed a phobl anabl yn teimlo'n fwy agored i niwed wrth ddefnyddio peiriannau, yn enwedig os ydynt ar y stryd. Gall fod yn anodd gweld y cyfarwyddiadau hefyd. Fydd pobl eraill, fel fi, ddim yn teimlo'n ddiogel yn eu defnyddio nhw oherwydd y peryglon i ddiogelwch fel dwyn manylion y cerdyn drwy gamerâu cudd. Roedd hyn wedi digwydd yn lleol. Mae'n well i gen i ddefnyddio cownter y banc/swyddfa bost.'

O ystyried bod pob cwsmer cyfrif banc sylfaenol a nifer o gwsmeriaid cyfrifon eraill yn gallu cael gafael ar arian dros gownter swyddfa bost, efallai ei bod yn syndod mai dim ond saith y cant o'r rheini a atebodd arolwg CAB, a chwech y cant o'r rheini a oedd yn codi arian yn arolwg Ipsos MORI ddywedodd eu bod yn defnyddio'r dull hwn fel rheol. Efallai mai un o'r rhesymau am hyn yw nad yw pobl yn gwybod bod y cyfleuster hwn ar gael. Roedd ymchwil a gynhaliwyd gan Llais Defnyddwyr ac a gyhoeddwyd llynedd[11] wedi canfod mai dim ond 18 y cant o gwsmeriaid cyfrifon cyfredol a oedd yn gallu cael gafael ar arian parod o gownter Swyddfa'r Post oedd yn gwybod eu bod yn gallu gwneud hynny. Serch hynny, roeddent wedi canfod bod cryn ddymuniad ymysg defnyddwyr i ddefnyddio rhwydwaith Swyddfa'r Post a phan roedd pobl yn ymwybodol o'r cyfleuster, roedd y rhan fwyaf yn manteisio arno. Ceir dadl gref yma i fanciau a chymdeithasau adeiladu hyrwyddo'r cyfleuster hwn yn ehangach a sicrhau bod pobl yn hollol ymwybodol o'r trafodion mae modd iddyn nhw eu gwneud yn Swyddfa'r Post.

Ers tro byd mae Cyngor ar Bopeth wedi ymgyrchu i'r banciau a'r cymdeithasau adeiladu hynny nad ydynt yn darparu'r cyfleuster hwn i'w cwsmeriaid cyfrifon cyfredol – ac yn fwyaf amlwg, oherwydd eu maint, HSBC a Santander – i wneud hynny.

Dylai'r holl drafodion mawr, gan gynnwys cael gafael ar arian parod a chael cyfriflenni balans, fod ar gael dros gownter Swyddfa'r Post. Mae'r angen am y gwasanaethau hyn, a bod pobl yn ymwybodol ohonynt, yn fwy amlwg byth yn sgil y nifer sylweddol o ganghennau banciau a chymdeithasau adeiladu sydd wedi cau dros y blynyddoedd diwethaf.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a gaiff rhai rhannau o'r gymuned wrth gael gafael ar arian, mae angen dull gweithredu cyfun arnom o barhau i wella argaeledd peiriannau codi arian (yn ddaearyddol ac o ran pa mor addas ydynt i'w defnyddio gan bobl sydd ag anableddau) ar yr un pryd â chynnal a chryfhau'r ddarpariaeth o ddulliau eraill o godi arian parod.

11 Cyfle dros y cownter – *Sicrhau mynediad i gyfrifon cyfredol i bawb mewn swyddfeydd post*, Llais Defnyddwyr, Awst 2011

Goblygiadau i'r dyfodol

'Rwy'n byw mewn ardal eithaf gwledig. Hyd y gwn i, dim ond un peiriant codi arian sydd yn fy mhentref lleol. Mae fy nghangen agosaf oddeutu pum milltir i ffwrdd mewn car (y siwrnai yno ac yn ôl = 10 milltir = petrol = !!!) Rwy'n gobeithio y bydd peiriannau banc yn dal ar gael i bawb, dim ots gyda pha fanc ydych chi! Rwy'n tueddu i beidio â chael arian yn ôl mewn siopau, fydd hynny ddim yn fy helpu i gyllidebu a chadw golwg ar fy arian, ac fel rheol bydda i'n gwario gormod.'
Un o ymatebwyr arolwg CAB

Wrth holi a oedd hi'n 'hawdd', yn 'anodd' neu'n 'amhosib' cael gafael ar eu harian am ddim, mae'n galonogol bod 94 y cant o'r rheini a atebodd arolwg CAB wedi dewis yr ateb 'hawdd'. Dywedodd lai nag un y cant ei bod yn 'amhosib', ac roedd y gweddill wedi dewis 'anodd'. Serch hynny, fel rydym wedi'i weld, roedd canran y bobl sy'n ei chael hi'n anodd neu'n amhosib yn codi'n sylweddol i 12 y cant ar gyfer y rheini sydd â chyfrif banc sylfaenol gyda banc sy'n cyfyngu ar fynediad. Mae nifer yr ymatebwyr sydd â'r cyfrifon hyn yn cynrychioli 36 y cant o bawb a atebodd sydd â chyfrifon banc sylfaenol. Felly, petai'r cyfyngiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n fwy cyffredinol, mae'n amlwg y byddai nifer y bobl sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar eu harian yn cynyddu'n sylweddol.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod pobl yn manteisio ar yr hyblygrwydd sydd ganddynt i godi eu harian o amrywiaeth o beiriannau heb ystyried pwy sy'n berchen arnynt. Hwylustod yw'r prif beth sy'n pennu pa beiriannau bydd pobl yn eu defnyddio. Roedd hwylustod yr un mor bwysig i ymatebwyr â chyfrifon banc sylfaenol.

Caiff anawsterau cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol wrth gael gafael ar arian eu gwaethygu gan gyfyngiadau eraill fel mynediad cyfyngedig i gardiau debyd, ac felly arian yn ôl, a therfynau isaf ar faint o arian mae modd ei godi dros gownter cangen banc. Er enghraifft, ni fydd Halifax na Santander yn caniatáu i bobl godi llai na £300 dros y cownter, ac mae gan Nationwide gyfyngiadau hefyd. Nid yw HSBC yn caniatáu i bobl godi unrhyw arian dros gownteri banc. Nid yw'r banciau na'r cymdeithasau adeiladu hyn yn cyfyngu ar y mynediad i'w peiriannau codi arian eu hunain, ond nid yw terfynau o'r fath yn helpu'r rheini y mae eu cyllidebu efallai'n gofyn iddynt godi symiau bach yn rheolaidd o'u cyfrifon yn y ffordd sydd fwyaf hwylus iddyn nhw.

Yn 2010, roedd Tasglu Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth y DU wedi dweud bod sicrhau mynediad at gyfleusterau bancio sylfaenol yr un mor bwysig heddiw â 10 mlynedd yn ôl, pan roedd gwaith Trysorlys EM wedi annog banciau a chymdeithasau adeiladu i ddatblygu eu cyfrifon banc sylfaenol. Aeth ymlaen i argymell, yn y tymor byr, y dylai banciau gymryd camau i sicrhau bod cyfrifon banc sylfaenol yn fwy hygyrch ac yn haws eu defnyddio i gartrefi tlotach. Yn y tymor hwy, roeddent yn teimlo bod angen edrych ar fodelau a sianeli newydd i ddarparu gwasanaethau ariannol[12].

Nid yw'r cyfyngiadau ar gael gafael ar arian sy'n wynebu rhai cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol ar hyn o bryd yn gam tuag at fwy o hygyrchedd na hwylustod. Byddem yn bryderus iawn am yr effaith ar gartrefi tlotach petai banciau a chymdeithasau adeiladu eraill yn dilyn esiampl y rheini sydd wedi

12 Adroddiad y Tasglu Cynhwysiant Ariannol: *Banking services and poorer households*, Rhagfyr 2010

diddymu mynediad i'r rhwydwaith LINK oddi wrth eu cwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol. Rydym hefyd yn credu y dylid adfer mynediad i'r rhwydwaith i bawb.

Ar un llaw, rydym wedi gweld ymdrechion ar y cyd dros y pum mlynedd diwethaf i fynd i'r afael ag allgáu ariannol drwy gynyddu nifer y peiriannau codi arian mae modd eu defnyddio am ddim mewn ardaloedd difreintiedig trefol a gwledig. Ar y llaw arall, rydym nawr yn gweld manteision hyn yn lleihau drwy ddiddymu'r gallu i ddefnyddio'r peiriannau hyn yn hyblyg oddi wrth gyfran sylweddol o'r boblogaeth. Ar gyfer y rheini sydd heb fynediad hwylus, ni chyflawnir union ddiben cyfrifon banc sylfaenol, sef darparu gwasanaethau bancio syml i hybu cynhwysiant ariannol gwell ac felly cynhwysiant cymdeithasol.

Mae Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yn yr Alban yn credu bod angen diffinio cyfres o nodweddion allweddol yn glir a ddylai greu safon sylfaenol ar gyfer cyfrifon banc sylfaenol. Er bod rhai o'r rhain tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, mae'n gyfle defnyddiol i nodi'r cyfleusterau sylfaenol rydym yn credu y dylai cyfrif o'r fath eu darparu, sef:

- mynediad at y rhwydwaith peiriannau codi arian LINK i gyd
- mynediad heb gyfyngiadau dros y cownteri mewn canghennau banc
- gallu talu arian i mewn a chodi arian o rwydwaith Swyddfa'r Post, yn ogystal â gwirio balansau cyfrifon
- cerdyn debyd i roi synnwyr gwell o gynhwysiant, gallu defnyddio arian yn ôl a chaniatáu i gwsmeriaid cyfrifon brynu pethau ar y rhyngrwyd neu dros y ffôn
- clustogfa[13]
- terfynau ar lefel y ffioedd a phryd maent yn berthnasol, gan gynnwys rhyw fath o gap cyffredinol
- help wrth agor y cyfrif am 'fanteisio i'r eithaf ar y cyfrif' (er enghraifft, ystyried a ddylid sefydlu debyd uniongyrchol a sut mae amseru talu'r rhain);
- meini prawf cymhwyso gyda chyn lleied â phosibl o waharddiadau.

Os yw dyfodol cyfrifon banc sylfaenol mewn amheuaeth oherwydd bod nifer anghymesur o gwsmeriaid cyfrifon banc sylfaenol wedi cronni mewn nifer fach o fanciau, mae gwir angen ystyried sut mae sicrhau ateb cynaliadwy sy'n arwain at ddosbarthiad cymesur ar draws y sector ac sy'n caniatáu mynediad i bob defnyddiwr. Ni allwn eistedd yn ôl a gwylio wrth i'r gwasanaethau sylfaenol sy'n angenrheidiol er mwyn cymryd rhan yn y byd modern gael eu herydu'n raddol i'r bobl sy'n wynebu'r anfanteision ariannol mwyaf yn ein cymdeithas.

Dylai Llywodraeth y DU weithredu Argymhelliad 2011 yr UE ar fynediad at fancio sylfaenol[14], a oedd yn gwahodd aelod-wladwriaethau i orfodi un sefydliad ariannol, rhai neu'r cwbl i gynnig cyfrifon sylfaenol i bob defnyddiwr ni waeth beth yw ei sefyllfa neu ei hanes ariannol. Ac ystyried bod y Comisiwn Ewropeaidd yn debyg o gryfhau ei safiad yn y maes hwn dros y blynyddoedd nesaf, mae'n gwneud synnwyr mynd i'r afael â'r broblem nawr, yn hytrach nag aros nifer o flynyddoedd pan fydd yn rhaid gweithredu yn ôl Cyfarwyddeb gan yr UE

13 Mae clustogfa'n golygu gorddrafft dros dro bach iawn oddeutu £10. Y syniad yw sicrhau bod cwsmeriaid yn dal yn gallu cael gafael ar eu harian drwy beiriant codi arian sy'n rhoi papurau £10 os mai dim ond £6 sydd ganddynt ar ôl yn eu cyfrif er enghraifft.

14 http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2011:190:0087:01:EN:HTML

Nodiadau technegol

Roedd Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yn yr Alban wedi comisiynu Ipsos MORI i gynnwys eu cwestiynau ar eu harolwg omnibws CAPI (cyfweliadau personol gyda chymorth cyfrifiadur) wyneb yn wyneb. Cafodd y cyfweliadau eu cynnal gyda phobl yn eu cartrefi.

Mae'r arolwg omnibws yn cyfweld â sampl cynrychioladol o tua 2,000 o oedolion ym Mhrydain Fawr dros 15 oed ym mhob ton. Cafodd astudiaeth Cael gafael ar arian Cyngor ar Bopeth ei chynnal gyda sampl o 1,970 o oedolion dros 15 oed rhwng 17 a 23 Chwefror 2012.

Gosodwyd cwotâu monitro i sicrhau bod y sampl yn cynrychioli'r wlad. Defnyddiwyd pwysiadau gyda'r data i sicrhau sampl cynrychioladol.



Does dim modd bwrw ymlaen â'r cais hwn. Cysylltwch â'ch banc.

Atodiad A: Arolwg Cael gafael ar arian CAB

Dyma arolwg byr ynglŷn â sut rydych chi'n cael gafael ar yr arian parod sy'n eich cyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu neu Gyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post.

Os nad oes gennych chi un o'r cyfrifon hyn, ni fydd angen i chi lenwi'r arolwg. Mae'n gyfrinachol ac ni fydd yn cymryd llawer o amser i'w lenwi.

Bydd yr wybodaeth a rowch yn ein helpu i weithio i sicrhau y gall pawb gael gafael ar eu harian eu hunain yn gyflym, yn hawdd ac yn rhad.

Rhowch dic wrth yr ateb(ion) mwyaf perthnasol i bob cwestiwn.

1. Oes gennych chi gyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn swyddfa'r post?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes - **Os 'Nac oes' yw eich ateb, NID oes angen i chi lenwi'r arolwg hwn**

2. Pa fanc neu gymdeithas adeiladu ydych chi'n ei ddefnyddio fel eich prif gyfrif?
(mae prif gyfrif yn golygu'r un rydych chi'n ei ddefnyddio gan amlaf i gael gafael ar eich arian parod)

- ☐ Bank of Scotland
- ☐ Barclays
- ☐ Banc Clydesdale
- ☐ Halifax
- ☐ HSBC
- ☐ Lloyds TSB
- ☐ Nationwide
- ☐ NatWest
- ☐ Royal Bank of Scotland
- ☐ Santander
- ☐ Banc y Co-operative
- ☐ Gan amlaf, rwy'n defnyddio Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post i gael gafael ar fy arian parod
- ☐ Arall, rhowch fanylion:

_____

3. Ai Cyfrif Banc Sylfaenol yw hwn? (os ydych chi'n defnyddio Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post ewch yn syth i C4)
(mae cyfrif banc sylfaenol yn gyfrif syml sy'n rhoi cyfle i chi dalu debyd uniongyrchol ac archeb sefydlog, ond does dim cyfleusterau gorddrafft na chredyd, na llyfr sieciau, ac nid yw'n talu llog i chi)

- ☐ Ie
- ☐ Na
- ☐ Ddim yn gwybod

4. Sut ydych chi fel arfer yn cael ARIAN PAROD o'ch prif gyfrif banc/cymdeithas adeiladu neu gyfrif swyddfa'r post? (Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Gyda pheiriant arian parod
- ☐ Wrth y cownter mewn swyddfa bost
- ☐ Arall, rhowch fanylion
- ☐ Wrth y cownter yng nghangen y banc
- ☐ Drwy gael 'arian yn ôl' mewn siopau

5. Os ydych chi'n defnyddio peiriant arian parod, peiriannau pwy ydych chi'n eu defnyddio fel arfer? (Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Peiriannau fy manc/cymdeithas adeiladu
- ☐ Peiriant arian parod cwmni arall sydd am ddim
- ☐ Ddim yn gwybod
- ☐ Peiriant banc/cymdeithas adeiladu arall
- ☐ Peiriant sy'n codi ffi
- ☐ Peiriant arian parod archfarchnad (e.e. Tesco), rhowch fanylion isod

6. Ydych chi'n defnyddio'r un peiriannau arian parod yn aml i gael gafael ar eich arian parod?

- ☐ Rwy'n tueddu i ddefnyddio'r un peiriant
- ☐ Mae ambell i beiriant y byddaf yn eu defnyddio'n aml
- ☐ Nid wyf yn defnyddio'r un peiriant yn rheolaidd

7. Os ydych chi'n defnyddio'r un peiriant/peiriannau arian parod yn aml i gael gafael ar eich arian, pam felly? (Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Mae'n agos i fy nghartref
- ☐ Mae ar fy ffordd i'r gwaith/ysgol/coleg
- ☐ Mae am ddim, ac mae peiriannau eraill yn codi ffi arnaf
- ☐ Rwy'n credu ei fod yn fwy dibynadwy na pheiriannau arian parod eraill
- ☐ Mae'n agos i'r lle rwy'n mynd i siopa
- ☐ Ni allaf ddefnyddio unrhyw beiriannau arian parod eraill
- ☐ Rwy'n credu ei fod yn fwy diogel na pheiriannau arian parod eraill
- ☐ Arall, rhowch fanylion

8. **Os mai dim ond peiriannau arian parod eich banc neu gymdeithas adeiladu fyddech chi'n gallu eu defnyddio, neu rydych chi'n gallu eu defnyddio nawr, sut fyddai/sut mae hyn yn effeithio ar eich gallu i gael gafael ar eich arian parod?** (defnyddiwch y blwch yn C10 i roi mwy o wybodaeth i ni am hyn)

- ☐ Ni fyddai/nid yw yn effeithio arnaf mewn unrhyw ffordd
- ☐ Byddai/mae yn ei gwneud ychydig yn anoddach i mi gael fy arian parod
- ☐ Byddai/mae yn ei gwneud yn llawer anoddach i mi gael fy arian parod
- ☐ Byddai/mae yn ei gwneud yn haws i mi gael fy arian parod
- ☐ Dydw i ddim yn gwybod

9. **Beth yw rhan gyntaf eich cod post?** e.e. SE9; M52
(Cofiwch, dim ond er mwyn gweld faint o beiriannau arian parod sydd ar gael yn eich ardal chi y mae arnom angen yr wybodaeth hon)

_____

10. **Defnyddiwch y gofod hwn i nodi unrhyw beth arall yr hoffech i ni gael gwybod amdano ynglŷn â'ch prif gyfrif a sut rydych chi'n cael gafael ar eich arian parod.**

_____

_____

11. **Yn gyffredinol, pa mor hawdd ydyw i chi gael gafael ar eich arian parod am ddim?**

- ☐ Hawdd
- ☐ Anodd
- ☐ Amhosib, ni allaf gael gafael ar fy arian parod am ddim

12. **A fyddai'n iawn i un o'n hymchwilwyr gysylltu â chi i drafod unrhyw beth rydych chi wedi sôn wrthym amdano?**

- ☐ Byddai
- ☐ Na fyddai

Os byddai, sut gallwn ni gysylltu â chi? _____

_____

Amdanoch chi

Diolch i chi am roi o'ch amser i lenwi'r arolwg hwn. Byddwn yn hynod o ddiolchgar petaech yn gallu ateb y cwestiynau canlynol hefyd, oherwydd byddant yn ein helpu i weld sut mae gwahanol bobl yn cael gafael ar eu harian parod.

Ydych chi yn...

- ☐ Menyw
- ☐ Dyn
- ☐ Byddai'n well gen i beidio â dweud

Faint yw eich oed chi...

- ☐ 17 - 24
- ☐ 25 - 34
- ☐ 35 - 49
- ☐ 50 - 64
- ☐ 65 - 74
- ☐ 75 - 84
- ☐ Dros 85
- ☐ Byddai'n well gen i beidio â dweud

Ydych chi yn...

- ☐ Berchen ar eich cartref
- ☐ Byw gyda ffrindiau a theulu
- ☐ Tenant i'r cyngor/cymdeithas tai
- ☐ Byw yn rhywle arall
- ☐ Tenant i landlord preifat

Pa elfennau sy'n rhan o incwm eich cartref? (Rhowch dic wrth bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Cyflogau
- ☐ Budd-dal analluogrwydd/Lwfans cyflogaeth a chymorth
- ☐ Credydau treth
- ☐ Pensiwn ymddeol/pensiwn galwedigaethol
- ☐ Incwm o hunangyflogaeth
- ☐ Lwfans byw i'r anabl/Lwfans gweini
- ☐ Lwfans Ceisio Gwaith/Cymhorthdal Incwm/Credyd Pensiwn
- ☐ Arall

Ydych chi yn...

- ☐ Rhan o gwpl
- ☐ Sengl
- ☐ Arall

Oes gennych chi blant sy'n dibynnu arnoch?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes

Oes unrhyw un yn eich cartref sy'n ystyried ei hun yn anabl neu'n ystyried bod ganddo broblem iechyd hirdymor?

- [ ] Oes
- [ ] Nac oes
- [ ] Byddai'n well gen i beidio â dweud

Sut byddech chi'n disgrifio eich cefndir ethnig?

- [ ] Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- [ ] Asiaidd a Gwyn Cymysg
- [ ] Cymysg arall
- [ ] Gwyn Arall
- [ ] Du neu Ddu Prydeinig
- [ ] Affricanaidd Du a Gwyn Cymysg
- [ ] Gwyn Prydeinig
- [ ] Arall
- [ ] Tsieineaidd
- [ ] Caribïaidd Du a Gwyn Cymysg
- [ ] Gwyn Gwyddelig
- [ ] Byddai'n well gen i beidio â dweud

Atodiad B: Cwestiynau Ipsos MORI

Sampl: Oedolion dros 15 oed

C1
Yw'r cyfrif byddwch chi'n ei ddefnyddio fel rheol i godi arian yn:

1. Cyfrif Cyfredol
2. Cyfrif Banc Sylfaenol (hy cyfrif syml heb orddrafft, cyfleusterau credyd na llyfr sieciau nad yw'n talu llog)
3. Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post
4. Does gen i ddim cyfrif fydda i'n ei ddefnyddio i godi arian
5. Arall

Gofyn i bawb sy'n defnyddio cyfrif i godi arian (hy pawb gyda chod 1, 2, 3 neu 5 yn C1)

C2
Tua pa mor aml byddwch chi'n codi arian o'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn swyddfa'r post?

1. Bob 1-2 ddiwrnod
2. Dwywaith yr wythnos
3. Unwaith yr wythnos
4. Unwaith y mis
5. Llai nag unwaith y mis
6. Byth (Mae gen i gyfrif ond fydda i byth yn defnyddio arian parod)
7. Does gen i ddim cyfrif banc, cyfrif cymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn swyddfa'r post
8. Ddim yn gwybod

Gofyn i bawb sydd yn codi arian (hy pawb gyda chod 1-5 yn C2)

C3
Sut byddwch chi fel rheol yn codi arian o'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn swyddfa'r post?

1. Gyda pheiriant arian parod
2. Wrth y cownter yng nghangen y banc
3. Wrth y cownter mewn swyddfa bost
4. Drwy gael 'arian yn ôl' mewn siopau
5. Arall

C4
Os ydych chi'n defnyddio peiriant arian parod, peiriannau pwy ydych chi'n eu defnyddio fel arfer? Rhowch hyd at dri ateb, gan ddechrau gyda'r peiriant rydych chi'n ei ddefnyddio amlaf [Caniatáu hyd at dri ateb] Y sawl sy'n cyfweld i gofnodi'r drefn

1. Peiriant fy manc/cymdeithas adeiladu
2. Peiriant banc/cymdeithas adeiladu arall
3. Peiriant â brand archfarchnad
4. Peiriant arian cwmni arall sydd am ddim
5. Peiriant sy'n codi ffi
6. Ddim yn gwybod

C5
[Cwestiwn batri, gofynnwch ar gyfer pob un a roddwyd yn C4, gan ddechrau gyda'r un a enwyd yn gyntaf] Pam ydych chi'n defnyddio [rhowch yr ateb o C4]?

1. Mae'n agos i fy nghartref
2. Mae'n agos i'r lle rwy'n mynd i siopa
3. Mae ar fy ffordd i'r gwaith/ysgol/coleg
4. Ni allaf ddefnyddio unrhyw beiriannau arian parod eraill
5. Mae am ddim, ac mae peiriannau eraill yn codi ffi arnaf
6. Rwy'n credu ei fod yn fwy diogel na pheiriannau arian parod eraill
7. Rwy'n credu ei fod yn fwy dibynadwy na pheiriannau arian parod eraill
8. Arall

Ysgrifennwyd gan Alison Green a Nick Waugh

Cyhoeddwyd gan Gyngor ar Bopeth ym mis Mehefin 2012
Myddelton House,
115-123 Pentonville Road,
Llundain N1 9LZ
Ffôn: 020 7833 2181
www.citizensadvice.org.uk
www.adviceguide.org.uk

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas
Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth.
Rhif cofrestru'r elusen 279057.